Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Y Rofft
# Wynnstay Lane
# Marford
# Wrecsam
# LL12 8LA

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Y Rofft

Mae Ysgol Gynradd Sirol Y Rofft ym mhentref Marford yn awdurdod lleol Wrecsam.

Mae 245 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed. Mae 218 o ddisgyblion amser llawn, gan gynnwys 22 o ddisgyblion yn y ddarpariaeth ag adnoddau, a 27 o ddisgyblion rhan-amser yn y dosbarth meithrin. Mae'r ddarpariaeth ag adnoddau yn darparu ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu ar draws Wrecsam.

Mae wyth o ddosbarthiadau prif ffrwd un oedran a dau ddosbarth â darpariaeth adnoddau ar gyfer oedrannau cymysg.

Tua 5% yw cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf, sydd gryn dipyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 25% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig iawn ohonynt ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Mae rhai disgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Arolygwyd yr ysgol gan Estyn ddiwethaf yn Nhachwedd 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Mae gan bron bob un ohonynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn cydweithio'n dda, yn fodlon ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn falch o'u hysgol.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda ac mae llawer o athrawon yn rhoi profiadau dysgu diddorol i ddisgyblion sy'n ennyn eu diddordeb ac yn eu cymell i ddod yn ddysgwyr gwydn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Rhoddir cymorth o ansawdd da i ddisgyblion ag anghenion dysgu penodol ac emosiynol.

Mae arweinwyr yr ysgol yn gydwybodol ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar roi'r cyfle gorau posibl i bob disgybl i lwyddo a theimlo'n hapus a'i fod yn cael ei werthfawrogi. Mae tîm ymroddgar a gweithgar o staff ac mae llywodraethwyr yn eu cynorthwyo'n dda.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau dysgu annibynnol y disgyblion

A2 Darparu cyfleoedd rheolaidd i staff rannu’r arferion gorau mewn addysgu a dysgu yn yr ysgol, ac o ysgolion eraill

A3 Galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn yr ysgol, a dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu, a sut

A4 Cynnwys disgyblion, staff a llywodraethwyr yn effeithiol mewn prosesau monitro a hunanarfarnu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol sy'n debyg i'r rheiny a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, neu'n uwch. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth iddynt symud trwy'r ysgol ac maent yn cyflawni yn unol â'r lefel a ddisgwylir erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, neu'n uwch. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y dosbarthiadau adnoddau dysgu yn gwneud cynnydd arbennig o dda tuag at eu targedau unigol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu syniadau'n glir ac yn mwynhau siarad am eu gwaith a bywyd yr ysgol ag ymwelwyr. Mae llawer ohonynt yn gwrando'n dda ar staff ac ar ei gilydd. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn darllen. Dangosant amgyffrediad cadarn o seiniau cychwynnol o oedran cynnar, ac maent yn cymhwyso'r wybodaeth ffonig hon yn dda wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn bwrw golwg dros wybodaeth ac yn dethol gwybodaeth yn gyflym i gefnogi eu dysgu, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am ddyfeisiau Fictoraidd fel rhan o'u testun hanes.

Mae disgyblion yn defnyddio'r medrau ysgrifennu y maent yn eu dysgu yn Saesneg yn effeithiol mewn meysydd pwnc eraill. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn ysgrifennu'n hyderus at ystod o ddibenion, mewn gweithgareddau dan do ac awyr agored. Er enghraifft, mae rhai o ddisgyblion hŷn yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio geirfa ddychmygus am stori Camille and the Sunflowers. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ennyn diddordeb y darllenydd yn effeithiol. Er enghraifft, defnyddiant iaith greadigol ac emosiynol wrth ysgrifennu am ragfarn gymdeithasol ar ôl gwylio'r ffilm 'Victoria and Abdul'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn dda i drefnu eu hysgrifennu, ac mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn drafftio a mireinio eu gwaith yn fedrus i wella'i ansawdd.

Mewn mathemateg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn addas ar draws meysydd dysgu. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfrifo yn briodol, a defnyddiant graffiau bloc a phictogramau'n dda wrth gofnodi eu hoff ffrwythau, neu gyfrif adar y maent yn eu gweld o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir i amcangyfrif ac wedyn mesur hyd y gwahanol wrthrychau yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso eu medrau rhif a thrin data yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, wrth fesur cyfradd curiad eu calon ar ôl ymarfer corff, defnyddiant eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda i fewnbynnu'r wybodaeth i gronfa ddata. Mae llawer o ddisgyblion yn creu a dehongli graffiau'n gywir, gan nodi'r modd, y canolrif a'r cymedr, yn hyderus. Mewn gwersi addysg gorfforol, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrif nifer uchaf ac isaf y daliadau, hopiau bwni a driblau pêl-droed, i ganfod yr amrediad yn gywir. Mae rhai disgyblion hŷn a mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 yn mynd i'r afael ag ymchwiliadau cymhleth yn annibynnol, er enghraifft wrth ddefnyddio Pi i gyfrifo cylchedd crater a wnaed trwy ostwng marblen o wahanol uchderau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau da mewn TGCh. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau a pheintio syml i greu lluniau ac ychwanegu testun, newid lliwiau a maint ffont gydag annibyniaeth gynyddol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn defnyddio cyfarwyddiadau clir i raglennu gwrthrych, fel car, i symud ar draws y sgrin. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn deall e-ddiogelwch yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn chwilio am wybodaeth ar-lein yn gymwys, ac yn defnyddio ystod o raglenni'n hyderus i gyflwyno eu canfyddiadau.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ymadroddion cyfarwydd yn rheolaidd ac yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau gan staff. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn siarad yn hyderus, gyda mynegiant, ac ynganu da, wrth ddisgrifio eu hunain a'u hobïau. Mae eu medrau darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg yn datblygu'n dda.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael gofal da ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn barchus a goddefgar o'i gilydd mewn dosbarthiadau ac ar y maes chwarae. Mae'r rhyngweithio cadarnhaol a'r lefelau cryf o gydweithio ymhlith disgyblion o bob oedran, wrth weithio a chwarae, yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn symud yn dawel a phwyllog o gwmpas yr ysgol, ac i'r maes chwarae, ac oddi yno. Mae safonau ymddygiad yn gyson uchel.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau, fel arweinwyr digidol, ac aelodau o'r cyngor ysgol a'r cyngor eco. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar y cyngor ysgol yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, fel codi arian ar gyfer elusennau, pecynnu blychau ar gyfer plant dan anfantais, a helpu i weini bwyd mewn clwb cinio i bensiynwyr.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi ac yn dal ati i ganolbwyntio'n briodol. Maent yn gweithio'n hapus mewn parau, yn unigol ac mewn grwpiau ac yn gwerthfawrogi barn disgyblion a phobl eraill. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn gweithio'n annibynnol nac yn gwneud penderfyniadau am sut a beth maent yn ei ddysgu'n ddigon rheolaidd. Mae llawer ohonynt yn dyfalbarhau'n dda pan fyddant yn wynebu heriau, a defnyddiant ystod addas o strategaethau i'w helpu i lwyddo. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn torri problemau rhesymu mathemategol i lawr yn ddarnau llai i sicrhau eu bod yn ateb y cwestiwn yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall bod angen bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer ohonynt yn gwella'u ffitrwydd trwy gymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus i ymestyn medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso'r medrau hyn yn hyderus. Mae'r ysgol

wedi ystyried y fframwaith cymhwysedd digidol yn ofalus, sy'n dechrau mynd i'r afael â bylchau yn ei darpariaeth bresennol yn effeithiol. O ganlyniad, ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau TGCh yn bwrpasol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn defnyddio'r awyr agored yn effeithiol i ddatblygu medrau llafaredd, ysgrifennu cynnar a datrys problemau disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn dyfalbarhau'n dda wrth geisio dod o hyd i ateb i gael 'eliffant sy'n sownd' oddi ar ynys ac yn ôl adref, ac wrth ffilmio ei gilydd yn adrodd storïau fel 'Y Tri Arth'.

Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o raglenni ymyrraeth a chymorth i fodloni anghenion disgyblion unigol, yn enwedig y rheiny ag anghenion dysgu penodol ac anghenion emosiynol. Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion yn y ddarpariaeth adnoddau yn gryfder arbennig. Yn y dosbarthiadau hyn, mae staff yn datblygu medrau bywyd disgyblion fel annibyniaeth, hunanofal, a'u medrau academaidd, yn effeithiol, gan ddefnyddio gweithgareddau diddorol. Er enghraifft, mae disgyblion yn creu model o fraich gan ddefnyddio cardfwrdd a bandiau elastig i gynrychioli gweithrediadau'r cyhyrau wrth iddynt ystwytho ac ymlacio, fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth. Mae hyn yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth mewn ffordd ymarferol a hwyliog, gan eu galluogi i wneud cynnydd da.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn nodi disgyblion sy'n fwy abl yn gynnar ac yn darparu ymyriadau tra ystyriol i'w herio i gyflawni o'u gorau, er enghraifft datblygu eu medrau darllenydd lefel uwch wrth astudio'r nofel 'Cogheart' sydd wedi'i gosod yn ystod Oes Fictoria.

Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Mae bron pob un o'r staff yn fodelau rôl iaith medrus. Maent yn ymgorffori Cymraeg bob dydd mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn llwyddiannus. Mae astudio gwaith sawl arlunydd a cherddor o Gymru, fel Janet Bell, a'r gantores opera leol o Gymru, Ann Taylor, yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru yn dda.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, ac fe gaiff perthnasoedd cefnogol rhwng oedolion a disgyblion effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth gwerthfawr i unigolion a grwpiau penodol. Er enghraifft, maent yn rheoli grwpiau ymyrraeth yn dda yn rheolaidd, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at y safonau da a gyflawnir gan y disgyblion hyn. Yn gyffredinol, mae athrawon yn y cyfnod sylfaen yn gosod yr amgylchedd dysgu ac yn cynllunio profiadau dysgu'n greadigol, i fodloni anghenion a diddordebau disgyblion. Mae hyn yn arwain at lefelau da o ymgysylltu a brwdfrydedd ar gyfer dysgu.

Mewn llawer o ddosbarthiadau, lle mae addysgu'n dda, mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau a strategaethau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Yn y dosbarthiadau hyn, mae gwersi'n aml yn ymarferol, ac yn annog dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae llawer o'r staff yn y dosbarthiadau hyn yn gwneud defnydd da o holi i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i feddwl.

Pan fo'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw rhai athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am sut a beth maent yn ei ddysgu. Ar rai adegau, mae'r defnydd amhriodol o daflenni gwaith yn cyfyngu ar ddysgu disgyblion ac yn lleihau cyfradd eu cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig effeithiol i ddisgyblion ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella'u gwaith. Mae staff yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant clir.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer nodi ac olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys y rheiny sy'n fwy abl a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny yn y ddarpariaeth adnoddau yn gryfder yn yr ysgol. Mae cynlluniau dysgu o ansawdd uchel yn bodloni anghenion y disgyblion hyn yn llwyddiannus. Mae staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni yn adolygu'r rhain yn rheolaidd ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion targedig yn gwneud cynnydd da.

Ceir rhaglenni buddiol i gynorthwyo disgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheiny ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol. Caiff grwpiau anogaeth effaith gadarnhaol ar wella hunan-barch disgyblion, ac mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn dangos lefelau gwell o hyder ac ymgysylltu ym mywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am fwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae gwersi addysg gorfforol rheolaidd ac ystod eang o glybiau chwaraeon ar ôl yr ysgol, er enghraifft pêl-droed a phêl-rwyd, yn helpu gwella lefelau ffitrwydd disgyblion. Ceir darpariaeth gref ar gyfer lles disgyblion. Er enghraifft, mae'r 'clwb ymwybyddiaeth ofalgar' yn galluogi disgyblion targedig i ddysgu technegau a strategaethau penodol i'w helpu i aros yn bwyllog a datblygu ystod o fedrau hunangymorth priodol.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion fod yn weithgar yn y gymuned leol. Mae'r côr yn perfformio mewn lleoliadau lleol ac mae disgyblion yn gwella'r amgylchedd lleol trwy godi sbwriel. Mae testunau ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth, goddefgarwch hiliol a materion yn y byd ehangach yn llwyddiannus. Er enghraifft, gwelodd disgyblion Blwyddyn 6 ffilm 'Victoria and Abdul' yn ddiweddar. Fe wnaeth hyn eu hannog i drafod materion am oddefgarwch hiliol yn ystod Oes Fictoria yn aeddfed, ac arweiniodd at ddarnau o ysgrifennu hynod ddifyr ac emosiynol.

Ceir profiadau gwerthfawr i gyfoethogi a datblygu medrau creadigol disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn chwarae offerynnau cerddorol ac yn canu yng nghôr yr ysgol. Mae ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol diddorol, fel clwb coginio a chlwb 'Harry Potter', yn atgyfnerthu medrau llythrennedd, rhifedd a chreadigol disgyblion mewn ffyrdd hwyliog a difyr. Mae ymweliadau preswyl â Glanllyn yn datblygu hyder a medrau cymdeithasol disgyblion hŷn yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn grwpiau llais y disgybl fel y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Fodd bynnag, nid yw eu rôl mewn llywio penderfyniadau ar lefel ysgol gyfan wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r pennaeth a’r uwch arweinwyr yn gydwybodol ac mae ganddynt weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol a’i disgyblion. Mae hyn yn seiliedig ar roi’r cyfle gorau posibl i ddisgyblion lwyddo yn academaidd, a theimlo’n hapus a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae arweinwyr yn cyfleu hyn yn effeithiol i staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o’u rolau penodol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau’n ddiwyd. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu a chanolbwyntio ymdrechion staff ar flaenoriaethau strategol allweddol yn llwyddiannus, er enghraifft datblygu lles disgyblion a chynyddu nifer y disgyblion sy’n cyflawni’r deilliannau uwch na’r disgwyl.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol o waith yr ysgol. Mae’r pennaeth yn eu hysbysu’n briodol am ddatblygiadau a deilliannau asesiadau athrawon a phrofion cenedlaethol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae ymglymiad llywodraethwyr mewn cynllunio ac arfarnu camau gweithredu i ysgogi gwelliant yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod blaenoriaethau gwella’r ysgol. Caiff data a gwybodaeth am berfformiad disgyblion eu dadansoddi’n drylwyr. Mae dysgwyr yn gwneud defnydd da o’r wybodaeth hon i nodi blaenoriaethau gwella ysgol gyfan ac adolygu cynnydd yn unol â’r blaenoriaethau hyn. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn cefnogi gwella’r ysgol yn briodol. Mae arweinwyr yn trefnu ystod fuddiol o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer athrawon a staff cymorth i ddatblygu eu harbenigedd. Mae’r rhain yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau’r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar feysydd lles penodol wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer lles staff a disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn ymgymryd ag ystod gynhwysfawr o weithgareddau monitro sy’n eu helpu i arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol. Mae’r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion a monitro cynllunio athrawon. O ganlyniad, mae gan uwch arweinwyr ddarlun cadarn o ba mor dda y mae’r ysgol yn bodloni anghenion ei disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio arbenigedd yr athrawon sy’n perfformio orau yn ddigon da i ddangos a rhannu arfer orau ar draws yr ysgol.

Mae’r cyswllt rhwng deilliannau hunanarfarniad yr ysgol a’i chynlluniau ar gyfer gwella yn glir. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae rôl disgyblion, staff a llywodraethwyr yn y broses hon. Mae arweinwyr yn ystyried safbwyntiau rhieni’n briodol trwy anfon holiadur blynyddol, sy’n galluogi iddynt gasglu safbwyntiau rhieni a gweithredu yn unol ag awgrymiadau.

Mae gan yr ysgol hanes da o ysgogi gwelliannau. Er enghraifft, mae ffocws ar wella ansawdd medrau darllen y disgyblion er gwybodaeth, a chodi safonau disgyblion yn y Gymraeg, wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae gan yr ysgol lefelau staffio da iawn. Mae staff cymorth yn rhan annatod o’r tîm, ac maent yn cyfrannu’n llwyddiannus at safonau, lles a medrau cymdeithasol disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio arbenigedd athrawon unigol yn dda ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, i ddarparu addysgu arbenigol ar gyfer disgyblion mewn cerddoriaeth a TGCh.

Mae arweinwyr yn dyrannu'r gyllideb yn briodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, er enghraifft prynu adnoddau darllen ychwanegol a datblygu llyfrgell yr ysgol. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella darpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd a lles disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae llywodraethwyr yn monitro gwariant yn rheolaidd i sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio cyllid yn effeithiol i godi safonau a gwella'r ddarpariaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 201X: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2017